**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Carl Sargeant AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

13 Hydref 2016

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet

**Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i ddarpariaeth eiriolaeth statudol**

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn gwneud rhywfaint o waith mewn perthynas â darpariaeth eiriolaeth statudol yng Nghymru.

I gynorthwyo'r Pwyllgor â’i waith, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu’r wybodaeth a ganlyn i'r Pwyllgor.

### Y Dull Cenedlaethol o Ddarparu Eiriolaeth Statudol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

1. Beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf o ran gweithredu'r Dull Cenedlaethol o Ddarparu Gwasanaethau Eiriolaeth? A oes fersiwn ddrafft o'r Dull Cenedlaethol? Os oes, am ba hyd y mae fersiwn ddrafft wedi cael ei hystyried? A ellir darparu copi i'r Pwyllgor?

2. Sut y caiff y Dull Cenedlaethol ei weithredu'n llawn? Beth yw'r amserlenni ar gyfer ei weithredu?

3. Pa asesiad a wnaed o'r costau o weithredu'r Dull Cenedlaethol? Sut y telir y costau hyn?

4. Sut y byddwch yn asesu effaith y Dull Cenedlaethol ar blant a phobl ifanc, a'r canlyniadau iddynt?

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

**Effaith Rhan 10 o Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

5. Beth yw goblygiadau'r darpariaethau yn y Ddeddf i wasanaethau eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc?

6. Sut y byddwch yn asesu effaith y darpariaethau yn y Ddeddf sy'n ymwneud ag eiriolaeth a'r Cod Ymarfer cysylltiedig ar Eiriolaeth?

7. A oes gennych dystiolaeth fod y darpariaethau sy'n ymwneud ag eiriolaeth yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi arwain at ddeilliannau gwell ar gyfer plant a phobl ifanc?

Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar am eich cymorth gyda'r mater hwn ac yn edrych ymlaen at gael eich ymateb. Er mwyn llywio gwaith y Pwyllgor yn llawn, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r wybodaeth hon erbyn 11 Tachwedd.

Yn gywir

**Lynne Neagle AC**
Cadeirydd